Eniola ydw I a fi oedd cynghorydd y cyfrifiad yn Southwark.

A'm rôl yw ymgysylltu â'r gymuned. Dweud wrthyn nhw am y cyfrifiad a'u hannog i gymryd rhan. Hefyd rwy'n hoffi dweud wrthyn nhw beth yw'r cyfrifiad a pham bod y cyfrifiad yn bwysig. Felly byddaf yn dweud wrthyn nhw, er enghraifft, y gallai'r cyfrifiad yn eich cymuned wella nifer y meddygon teulu sydd gennych neu nifer yr ysgolion.

Oherwydd y gymuned roeddwn i'n gweithio ynddi roedd llawer o bobl yn wynebu problemau mewnfudo efallai felly roedd gan lawer o bobl ofn cymryd rhan yn y cyfrifiad, gan feddwl y byddai'n cael ei ddefnyddio fel mater mewnfudo yn eu herbyn. Felly roedd angen i mi eu haddysgu am hynny gyda'r adran mewnfudo. Does gan yr adran mewnfudo ddim i'w wneud â'r cyfrifiad. Mae'r cyfrifiad yn cyfrif nifer y bobl yn y fwrdeistref hon a dyma beth mae'r canlyniad yn cael ei ddefnyddio ar ei gyfer.

Fy rôl i oedd rhyw ymgysylltu â chymunedau i gyd mewn un man yn hytrach na mynd o dŷ i dŷ. A'r rheswm dros gymryd y rôl honno oedd fy mod i'n credo ei bod hi'n hawdd gwneud mwy o waith gyda chymunedau am eu bod yn dylanwadu ar ei gilydd felly pan fyddaf yn mynd i'r Mosg ac rwy'n siarad â nhw ac maent yn gofyn cwestiynau, yna maent yn annog ei gilydd. Mae angen i ni wneud hyn ac mae angen i ni ddod at ein gilydd. Mae angen ysgol gynradd newydd yn fy ardal. Gadewch i ni adeiladu'r ffurflen, gadewch i ni gymryd rhan.

Roedd yn gweddu'n wych i'm hamserlen oherwydd gyda'r rhan fwyaf o'm rolau roedd angen i mi fynd gyda'r nos neu ar y penwythnos i'r gwahanol gymunedau roeddwn i'n mynd i siarad â nhw. A gweddill yr amser roeddwn i'n gwneud fy ngwaith papur.

Dysgais i lawer am y fwrdeistref rwyf wedi bod yn byw ynddi. Dysgais i lawer am beth mae canlyniad y cyfrifiad yn cael ei ddefnyddio ar ei gyfer. Dysgais i lawer am hanes bwrdeistref Southwark a rhai o'r adeiladau yno y gallwn i sôn amdanyn nhw'n well nawr am fy mod i'n gwybod yr hanes.

Gwnaeth gwneud y cyfrifiad agor fy llygaid i wahanol faterion pan fyddwn i'n ymweld â'r ystadau mawr ac fe es i i fannau lle na fyddem yn mynd fel arfer a gweld beth sy'n digwydd yn y mannau hynny, a oedd yn help mawr yn fy ngwaith i feithrin mwy o ddealltwriaeth o bobl fel unigolion, tuag at y materion sy'n eu hwynebu.

Felly mae'n beth gwych gweithio ar y cyfrifiad os ydych yn barod i gael profiad newydd.